dros adferiad o afiechyd meddwl difrifol hafal for recovery from serious mental illness

Sir Ddinbych

Adroddiad Blynyddol 2010-2011

- Cymorth Tenantiaeth Gofal Aciwt (ACTS).
- Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd Gogledd Sir Ddinbych.
- Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd De Sir Ddinbych.
- Grŵp Cymorth i Deuluoedd Henoed Eiddil eu Meddwl dros 65 oed (prosiect peilot).

Roedd yr ymgyrch "Ffordd Tuag at Adferiad" wedi arwain at fws micro Hafal yn cyrraedd Sir Ddinbych. Mynychwyd y digwyddiad yma gan fwy na chwe deg o unigolion gan gynnwys Dirprwy Faer y Dre ac Eiriolwyr dros Ofalwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Mwynhaodd y gofalwyr a'r defnyddwyr gwasanaeth sy'n defnyddio'r prosiect ACTS y diwrnod a gynhaliwyd yng Nghlwb Golff Rhyl. Galluogodd y tywydd braf i'r digwyddiad yma i gymryd lle yn yr awyr agored tra bod yna hefyd amrywiaeth o weithgareddau y tu mewn i'r clwb golff gan gynnwys dawnsio bola, cyflwyniadau a sesiynau blas.

Roedd Hafal wedi cymryd rhan mewn erthygl newyddion 'ITV Wales Tonight' a oedd yn amlygu'r problemau sy'n cael eu hwynebu gan ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n meddu ar afiechyd iechyd meddwl difrifol i gael mynediad at dai diogel o ansawdd da. Ffilmiwyd a holwyd y tîm prosiect ACTS ac fe'i darlledwyd ar 17 Medi 2010. Amlygodd yr erthygl bod prosiectau tebyg i ACTS yn cael effaith bositif ar y stigma a rhagfarn a wynebir gan bobl gydag afiechyd meddwl difrifol sy'n byw o fewn y gymuned.

Roedd Hafal hefyd wedi cymryd rhan mewn digwyddiad mawr yn Neuadd y Dre yn Rhyl ar 8 Hydref 2010 ar gyfer y Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd. Gweithiodd nifer o asiantaethau gyda'i gilydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chyfeirio pobl at wybodaeth defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yng ngogledd y sir. Roedd Hafal yn medru hyrwyddo nifer o'i gyhoeddiadau gan gynnwys "12 Bywyd".

Roedd Hafal hefyd wedi cymryd rhan mewn digwyddiad a gynhaliwyd yn Rhuthun ar gyfer Diwrnod Hawliau Gofalwyr ar 3 Rhagfyr 2010. Roedd hwn yn gyfle gwych ar gyfer hyrwyddo'r gwasanaeth peilot newydd i gefnogi gofalwyr dros 65 oed sydd ag afiechyd meddwl, ac i'r cydlynydd cymorth teuluol i rwydweithio gydag asiantaethau allweddol.

Cyflwynodd y gwasanaeth peilot Henoed Eiddil eu Meddwl dau ddigwyddiad ar wahân yn ychwanegol, yng ngogledd a de'r sir, gan gynnig sesiynau blas a chyfleoedd ar gyfer gofalwyr i gael seibiant.

Mae Gogledd a De Sir Ddinbych yn parhau i ddarparu grwpiau gofal rheolaidd sydd yn rhedeg am yn ail ar hyd y sir bob pedair wythnos. Mae pob grŵp yn mwynhau rhwng 14 a 18 o bobl yn eu mynychu'n rheolaidd. Eleni, mae gofalwyr wedi cael budd o ŵyr gwadd a chyflwyniadau gan Gofal a Thrwsio, Cyngor Budd-daliadau, Taliadau Uniongyrchol, CADMHAS, y Night Shelter, gwasanaeth Fit for Work, Tim Cyffuriau ac Alcohol, Careline a Telecare.

D/o Hafod, Heol Beechwood, RHYL LL18 3EU
Ffôn: 01745 443050
e-bost: denbighshire@hafal.org

Mae'r Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd yn anelu i weithio gyda gofalwyr sy'n gofalu am bobl sy'n derbyn mewnbwn gan wasanaethau iechyd meddwl eilaidd a gwasanaethau cynradd. Gyda'r grŵp olaf, rydym yn gweithio'n agos gyda gofal cynradd, seicolegwyr a seiciatryddion sy'n monitro cleifion sy'n derbyn apwyntiadau cleifion allanol. Mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn gweithio ochr yn ochr gyda Hafal i adnabod 'gofalwyr cuddiedig' er mwyn sicrhau bod gwasanaeth yn cael ei gynnig iddynt, a bod eu hawliau ac anghenion yn cael eu diwallu lle bo angen.

Darparodd Hafal Sir Ddinbych lleoliad profiad gwaith 20 diwrnod i fyfyriwr gwasanaethau cymdeithasol blwyddyn gyntaf ar gychwyn mis Ionawr. Rhoddodd y lleoliad hwn gyfle i'r myfyriwr gael mewnwelediad da, a lluniwyd perthnasau a chysylltiadau positif. Mae'r berthynas rhwng Prifysgol Bangor, yr athro ymarfer a'r tîm cymorth yn gryf iawn. Roedd y cyfathrebu rheolaidd drwy'r cyfnod profiad gwaith a'r adborth am Hafal o'r Brifysgol ar ddiwedd y lleoliad, yn bositif iawn.

Dawnsio Bola

Dirprwy Faer y Dref a'r Eiriolwr Gofal